

Adroddiad Blynyddol

Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot 2014-15

RHAGAIR

Ar ôl treulio 12 mlynedd yng Nghanolfan y Groes Pontardawe, symudodd y Fenter Iaith i swyddfa newydd, ar ddydd Llun, 16 Mawrth '15, Y Stablau (adeilad Prosiect Ponty), tu ôl i faes parcio Tafarn y Dillwyn, sgwâr Pontardawe.

Mae hyn yn ddatblygiad pwysig i'r Fenter Iaith ac yn gyfle gwych i gynnig mwy o wasanaethau Cymraeg i drigolion yr ardal a'r sir.

Ffeithiau am Fenter Iaith Castell-nedd Port Talbot:-

- 12,745 yn cymryd rhan yn ein gweithgareddau
- 290 o ddigwyddiadau unigol y flwyddyn
- 43 o wirfoddolwyr
- 31 o staff achlysurol
- 5 aelod o staff ar gytundebau llawn a rhan amser
- 48 o bartneriaid lleol a chenedlaethol

DATGANIAD CENHADAETH

Hyrwyddo, hybu a chynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg o fewn ffiniau Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.

PWYLLGORAU RHEOLI AC ARDAL

Mae'r Fenter Iaith yn llwyddo diolch i'r gefnogaeth a dderbyniwyd oddi wrth aelodau'r Pwyllgor Rheoli, Pwyllgorau Ardal a thrigolion y sir. Mae 12 o wirfoddolwyr yn aelodau o'r Pwyllgor Rheoli ac yna 20 o wirfoddolwyr wedi eu rhannu rhwng y tri Phwyllgor Ardal sef Pontardawe, Castell-nedd a Phort Talbot

Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot,

Y Stablau (Adeilad Prosiect Ponty),

Stryd Herbert,

Pontardawe,

Abertawe SA8 4EB

01792 864949

menter@micnpt.org

www.menteriaithcnpt.cymru

Cwmni Cyfyngedig drwy warant: 6156176

GIGS Y GWACH / GŴYL Y GWACH

Cynhaliwyd gig gyntaf Gigs y Gwach yn ôl ym mis Mawrth 2008, ac ers hynny mae'r gigs wedi mynd o nerth i nerth. Yn ystod y ddwy flynedd gyntaf fe gynhaliwyd y gigs acwstig ar y drydedd nos lau bob mis ond yn Ebrill 2010 newidiwyd y noson i'r nos Wener ac yn syth fe welwyd cynnydd o 10% yn nifer y mynychwyr. Ym mis Mawrth eleni buom yn dathlu saith mlynedd o Gigs y Gwach yng nghwmni Y Bandana â'r Angen.



Yn dilyn llwyddiant Gigs y Gwach, fe sefydlwyd Gŵyl y Gwach yn ôl yn 2010, gŵyl gymunedol Cymraeg ar gyfer trigolion y sir. Erbyn hyn mae'r Ŵyl yn denu nid yn unig nifer fawr o bobl y sir ond o'r siroedd cyfagos hefyd yn cynnwys Abertawe, Caerfyrddin, Powys a Phen-y-bont. Cynhaliwyd Gŵyl 2014 dros dri diwrnod yng nghanol mis Gorffennaf yn Nhafarn y Gwachel Pontardawe. Mynychwyd yr Ŵyl gyfan gan tua 1,000 o bobl, 26% yn fynychwyr newydd. Ymddengys hefyd bod y niferoedd y rhai rhwng 18-24 gwnaeth fynychu'r Ŵyl eleni wedi cynyddu 18% rhwng 2013 a 2014 yn ogystal gwelwyd cynnydd o 8% ar gyfer y nifer o deuluoedd mynychodd 'Diwrnod i'r Teulu' ar y dydd Sadwrn. O'r mynychwyr a holwyd yn ystod y penwythnos, dyma 93% yn datgan bod lleoliad yr Ŵyl yn 'Wych', 98% wedi dweud eu bod yn bwriadu mynychu'r Ŵyl yn 2015.



Diwrnod i'r Teulu



Mynediad am Ddim yn perfformio yn yr Ŵyl

GŴYL FFILM Y CRINDDAIL

Ym mis Hydref trefnodd y Fenter Iaith Gŵyl Ffilm y Crinddail am yr eildro yng Nghanolfan Celfyddydau Pontardawe. Bwriad yr Ŵyl yw rhoi cyfle i drigolion yr ardal o bob oedran gwyllo ffilmau Cymraeg ar y sgrin fawr, a hefyd i bobl ifanc dangos eu sgiliau wrth fynd ati i greu ffilm fer. I ddechrau'r Ŵyl ar y bore dydd Gwener, cafodd dros 650 o blant cynradd cyfle i wyllo ffilm Gymraeg, sef "Y Dyn Nath Ddwyn y Nadolig" ar y sgrin fawr, y tro cyntaf erioed i nifer fawr ohonynt wyllo ffilm Cymraeg! Fe ddangoswyd y ffilm yng Nghanolfan Celfyddydau Pontardawe ac yn Neuadd Gwyn, Castell-nedd.



Gwyl Ffilm y Crinddail
Menter Iaith CNPT
"Welsh Film Festival"

Dydd Gwener / Friday 17/10/14
am 10.00am
Ffilm ar gyfer Ysgolion Cymraeg yn unig /
Junior Schools only

Nos Wener / Friday 17/10/14 am 7.30pm
Dangosiad o'r 5 ffilm orau y "Gystadleuaeth Ffilm Fer"
Fe fyddwn yn cyhoeddu a gwobrwyo'r enillywyr ar y noson
A showing of the 5 best films from the "Short Film Competition"
We will be announcing and presenting the winners on the night

Nos Sadwrn / Saturday, 18/10/14 am 7.30 pm
"Dirgelwch yr Ogof" (12+)
(English subtitles)
Mynedid am ddim / Free entry
Cyfraniadau tuag at elusen leol /
donations towards a local charity

menter iaith
castell-nedd port talbot

buffoon
film and audio

Uywodfaeth Cymru
Welsh Government

O ganlyniad i'r gystadleuaeth ffilm fer a lansiwyd yn ôl ym mis Mehefin '14. Derbyniwyd nifer o geisiadau, ac ar y nos Wener, cynhaliwyd noson wobrwyo yng Nghanolfan Celfyddydau Pontardawe, ble ddangoswyd y pum ffilm a gyrhaeddodd y rhestr fer. Beirniadwyd y gystadleuaeth gan Aled Samuel. Ceri Evans, disgybl o Ysgol y Strade cipiodd y wobwr gyntaf. Ar y nos Sadwrn ac i ddod a'r Ŵyl Ffilm i ben trefnwyd ffilm ar gyfer oedolion sef, "Dirgelwch yr Ogof".

CLYBIAU PLANT A PHOBL IFANC

Ystyrir plant a phobl ifanc yn ddwy garfan bwysig i weithio gyda, yn enwedig o safbwynt cynnig ystod o gyfleoedd ychwanegol drwy gyfrwng y Gymraeg tu allan i oriau ysgol. Mae gan Y Fenter bartneriaeth dda iawn gydag ysgolion yr ardal a chafwyd cydweithio agos ar nifer o gynlluniau a gweithgareddau.

Mae'r bartneriaeth rhwng y Fenter Iaith a'r Urdd yn parhau i ddatblygu ac o ganlyniad sefydlwyd dau glwb newydd ar y cyd sy'n cwrdd yn wythnosol, sef Clwb Chwaraeon a Chlwb Roc.

Mae'r ddau gôr i bobl ifanc rhwng 10-15oed a 16-25 oed a sefydlwyd ar y cyd gyda Menter Iaith Abertawe yn parhau i gwrdd yn wythnosol, gydag aelodaeth o tua 60 rhwng y ddau gôr.

Mae 'Stafell Stwnsh', clwb cinio ar gyfer disgyblion Ysgol Gyfun Ystalyfera yn denu tua 60 o bobl ifanc yn wythnosol. Gwelwyd cynnydd o 7% rhwng 2013 a 2014.

CYNLLUNIAU CHWARAE YN YSTOD GWYLIAU'R YSGOL

Ar gyfartaledd, bu 175 o blant yr wythnos yn mynychu'n darpariaeth Chwarae am y bythefnos yn ystod gwyliau'r haf, cynnydd o 23%. Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot yw'r unig ddarparwyr o gynlluniau chwarae hollol Gymraeg yn y sir. Mae nifer helaeth o'r plant sy'n mynychu yn profi gweithgareddau chwarae trwy gyfrwng y Gymraeg am y tro cyntaf. Mae'r sesiynau 'Sbri Di Ri' yn cynnig cyfleoedd gwych i'r plant cynyddu eu hyder i ddefnyddio'r Gymraeg wrth chwarae a chymdeithasu yn ystod y gwyliau, yn enwedig i'r plant sy'n dod o gartrefi di-gymraeg.



Rydym yn cyflogi a hyfforddi 6 o staff ychwanegol ac yn cynnig cyfleoedd gwirfoddoli i tua 10 o bobl ifanc.

Dyfyniad gan riant dwy ferch 10 ac 8 oed mynychodd 'Sbri Di Ri' Castell-nedd:-
“Cafodd y merched amrywiaeth o brofiadau sydd wedi cefnogi eu datblygiad cymdeithasol, corfforol a chreadigol yn ogystal â'u datblygiad yn yr iaith Gymraeg, i gyd mewn awyrgylch gynnes a hapus. Bu'r staff yn wych ac wedi treulio amser yn eistedd a sgwrsio gyda'r merched yn ogystal â chynnig cymorth iddynt yn ystod yr wythnos.”

GWEITHDAI YMWHYBYDDIAETH IAITH

Yn ystod 2014 cyflwynwyd 41 o weithdai ymwybyddiaeth iaith i 881 o blant a phobl ifanc a 58 o oedolion. Cynnydd o 13% ar niferoedd 2013. Bu rhaid addasu'r cwrs tipyn ar gyfer y gwahanol garfannau oedran ond cafwyd ymateb gwych gan bawb. Dyma rhai o'r sylwadau a dderbyniwyd:-

“I enjoyed the course and learnt a lot about the Welsh language and culture. I liked working in groups and learning more about the Welsh language through fun activities. I would like to learn Welsh in the future.”

(Disgybl BL 10 Ysgol Uwchradd Saesneg)

“Great session, would have liked it to continue. Interactive games / team collaboration helped people relax and feel part of the learning process.”
(Athro - Coleg Castell-nedd)

PWYLLGORAU ARDAL MENTER IAITH CNPT

Mae Pwyllgorau Ardal Pontardawe, Castell-nedd a Phort Talbot wedi bod yn allweddol i lwyddiant y Fenter dros y blynyddoedd. Dyma flas ar rhai o'r digwyddiadau a threfnwyd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf:-

PWYLLGOR ARDAL PONTARDAWE

Mae Pwyllgor ardal Pontardawe yn gyfrifol am gynnal Gigs a Gŵyl y Gwach, Gŵyl Ffilm y Crinddail yn ogystal â threfnu digwyddiadau eraill e.e. Cystadleuaeth Ffenest Siop Dydd Gŵyl Dewi â'r Cwis Nadolig yn yr Alltwn.



Cystadleuaeth ffenest Siop



Cwis Nadolig

PWYLLGOR ARDAL CASTELL-NEDD

Bu Pwyllgor Ardal Castell-nedd yn weithgar iawn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn trefnu amryw o weithgareddau yn cynnwys gigs, cwisiau a thwmpathau.



Gig Kizzy Crawford



Twmpath Castell-nedd

PWYLLGOR ARDAL PORT TALBOT

Mae criw o bobl gefnogol iawn ar Bwyllgor Ardal Port Talbot. Mae'r rhan fwyaf o'r Pwyllgor yn ogystal â thrigolion yr ardal (nifer fawr ohonynt yn ddysgwyr) yn cyfarfod bob bore dydd Gwener am 10.30 ar gyfer bore coffi yng Nghaffi Remo's Aberafan.

Yn ogystal yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, fe lwyddwyd i drefnu nifer o ddigwyddiadau e.e. Cwisiau, Teithiau Cerdded a Noson Lawen.



Cwis Clwb Rygbi Cwmafon



Taith Gerdded Aberafan

GWAITH STRATEGOL A GWEINYDDOL

Mae gan y Fenter Cynllun Strategol cynhwysfawr sydd yn cael ei ddiwygio'n gyson, ac mae rhaglenni gwaith dydd i ddydd y staff yn seiliedig ar y cynllun.

Yn ogystal i'r Cynllun Strategol, mae'r Fenter Iaith yn meddu ar y polisiau / strategaethau canlynol:-

- Polisi Gweithdrefnau Amddiffyn Plant
- Polisi Cydraddoldeb
- Polisi Cynladwyedd
- Polisi Iechyd a Diogelwch
- Polisi Rheolaeth Ariannol Fewnol
- Polisi Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus
- Polisi Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwr
- Strategaeth Cyflogi Pobl
- Strategaeth Rheoli Risg
- Strategaeth Marchnata
- Proffil Iaith Castell-nedd Port Talbot

Mae gan bob aelod o staff 'Ffeil Personol' sydd yn cynnwys y Llawlyfr Staff, cytundeb a disgrifiad swydd, ffurflenni asesiad swydd, rhaglenni gwaith, cofnod misol o'r oriau a weithiwyd, cofnod gwyliau, ffurflenni costau teithio, a chofnod o absenoldeb gyda ffurflenni hunan ardystio.

Am y newyddion diweddaraf ewch i www.menteriaithcnpt.cymru